# CBAC Lefel 3 Tystysgrif Gymhwysol/ Tystysgrif Estynedig mewn Troseddeg

## Addysgu o fis Medi 2026

## Amlinelliad o Ddyluniad Cymhwyster

Diweddarwyd Ddiwethaf: 25/01/2024

# Cynnwys

CBAC Lefel 3 Tystysgrif Gymhwysol/ Tystysgrif Estynedig mewn Troseddeg ..........................1
Addysgu o fis Medi 2026..........................1
Amlinelliad o Ddyluniad Cymhwyster ..........................1
1. Cyflwyniad ..........................3
2. Dyluniad y Cymhwyster..........................4
2.1. Strwythur ..........................4
2.2. Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA)..........................5
2.3. Cyfanswm Amser Cymhwyso ..........................5
2.4. Tybiaethau gweithio – Dylunio cymhwyster..........................5
3. Cynnwys y pwnc ..........................6
3.1. Cynnwys y pwnc fesul uned..........................6
3.2. Tybiaethau gweithio – Cynnwys y pwnc..........................13
4. Asesu..........................13
4.1. Amcanion Asesu..........................13
4.2. Ymdrin â'r asesiad drwy arholiad (yn werth 60% o'r cymhwyster (cymwysterau)) ....13
4.3. Ymdrin â'r asesiad di-arholiad (yn werth 40% o'r cymhwyster (cymwysterau)).........14
4.4. Trefn yr asesiadau ac asesiadau synoptig ..........................14
4.5. Tybiaethau gweithio – Asesu ..........................14

# 1. Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o gymhwyster arfaethedig CBAC Lefel 3 Tystysgrif Gymhwysol / Tystysgrif Estynedig mewn Troseddeg. Mae'n defnyddio adborth a gafwyd gan y Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Cymwysterau ym mis Tachwedd 2023 ac yn rhoi canllaw ar gyfer datblygu'r cymhwyster.

Defnyddir y wybodaeth yn y ddogfen hon i lywio datblygiad y cynnwys a'r deunyddiau asesu enghreifftiol, unrhyw sicrhau ansawdd cysylltiedig a phrosesau dyfarnu. Gellir defnyddio'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn ogystal i'w chynnwys yn y Strategaeth Asesu lle y bo'n briodol gwneud hynny.

## Datblygu cymwysterau a sicrhau ansawdd

Bydd y gwaith o ddatblygu'r cymwysterau hyn yn dilyn y broses a amlinellwyd yn ein Fframwaith Datblygu Cymwysterau. Proses iterus yw'r broses o ddatblygu cymwysterau ac mae'n bosibl y bydd angen addasu rhywfaint ar nodweddion a chynnwys arfaethedig y cymhwyster yn ystod y gwaith datblygu. Cynnig ar ffurf dogfen weithio yw'r ddogfen amlinelliad o ddyluniad cymhwyster felly. Bydd sail resymegol y cymhwyster yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r cynigion a amlinellwyd yn y ddogfen hon.

# 2. Dyluniad y Cymhwyster

## 2.1. Strwythur

Bydd y cymhwyster (cymwysterau) yn cynnwys *dwy uned orfodol ar gyfer y Dystysgrif Gymhwysol a dwy uned orfodol ychwanegol ar gyfer y Dystysgrif Estynedig*

| **Teitl yr uned a chrynodeb – Tystysgrif Gymhwysol** | **Gorfodol / Dewisol** | **Pwysoli** |
|---|---|---|
| Blwyddyn 1<br>Uned 1: Natur troseddu a'r canfyddiad o droseddu<br>Gwahanol fathau o droseddau a sut mae reportio troseddau yn effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd o droseddoldeb<br>Sut mae cynrychioliadau'r cyfryngau o droseddu yn effeithio ar ganfyddiadau'r cyhoedd o droseddu<br>Patrymau o Droseddu (*Offending*) ac Erledigaeth | Gorfodol | 40/20% |
| Blwyddyn 1<br>Uned 2: Damcaniaethau Troseddegol<br>Lluniadau cymdeithasol o droseddoldeb<br>Damcaniaethau troseddoldeb<br>Achosion newid polisi<br>Uned synoptig | Gorfodol | 60/30% |
| **Teitl yr uned a chrynodeb – Tystysgrif Estynedig** | **Gorfodol / Dewisol** | **Pwysoli** |
| Blwyddyn 2<br>Uned 3: O Leoliad y Drosedd i'r Llys<br>Proses ymchwiliadau troseddol<br>Proses erlyn y sawl a ddrwgdybir<br>Adolygu achosion troseddol | Gorfodol | 20% |
| Blwyddyn 2<br>Uned 4: Trosedd a Chosb<br>Y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr<br>Rôl cosb yn y system cyfiawnder troseddol<br>Rheolaeth gymdeithasol<br>Uned synoptig | Gorfodol | 30% |

## 2.2. Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA)

Y bwriad yw y bydd angen 360 o Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA) ar y cymhwyster dwy flynedd hwn. Bydd angen 180 o Oriau Dysgu dan Arweiniad ar y dystysgrif blwyddyn o hyd. Bydd yr Oriau Dysgu dan Arweiniad yn cynnwys addysgu a dysgu a gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Bwriadwn rannu'r ODA fel a ganlyn:

| Teitl yr uned | Addysgu/Dysgu ac asesu ffurfiannol | Asesu crynodol |
|---|---|---|
| Uned 1: Natur troseddu a'r canfyddiad o droseddu | 90 ODA | 3 awr |
| Uned 2: Damcaniaethau Troseddegol | 90 ODA | 2 awr |
| Uned 3: O Leoliad y Drosedd i'r Llys | 90 ODA | 3 awr |
| Uned 4: Trosedd a Chosb | 90 ODA | 2 awr |

## 2.3. Cyfanswm Amser Cymhwyso

Penderfynir ar y Cyfanswm Amser Cymhwyso tua diwedd proses ddatblygu'r cymhwyster. Ymarferwyr fydd yn llywio hyn yn cyfateb i'n proses safonol ar gyfer neilltuo Cyfanswm Amser Cymhwyso.

## 2.4. Tybiaethau gweithio – Dylunio cymhwyster

Ein tybiaethau gweithio ar gyfer y gwaith datblygu yw:

| Tybiaeth weithio | Sail Resymegol |
|---|---|
| Bach iawn fydd y newidiadau i gynnwys pwnc Unedau 2-4 | Mae'n addas i'r pwrpas ar hyn o bryd ac wedi'i dderbyn yn dda gan y canolfannau. |
| Bydd newidiadau mwy sylweddol yn cael eu gwneud i gynnwys pwnc Uned 1 | Mae'r ffocws presennol ar astudio ymgyrchoedd yn anghymesur wrth astudio troseddeg |
| Mae angen newid asesiad Unedau 1 a 3 | Mae baich yr asesu ar fyfyrwyr, athrawon a chanolfannau yn feichus ac yn anhylaw. |

## 3. Cynnwys y pwnc

### 3.1. Cynnwys y pwnc fesul uned

<table>
<tr><th>Teitl yr uned</th><th>Uned 1: Natur troseddu a'r canfyddiad o droseddu</th></tr>
<tr><td rowspan="4">DD1 Deall mathau gwahanol o droseddau a sut mae reportio troseddau yn effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd o droseddoldeb</td><td>Mathau o Droseddau<ul><li>Coler wen</li><li>Trefnedig</li><li>Moesol</li><li>Gwladwriaeth</li><li>Seiberdroseddu</li><li>Casineb</li><li>Ar sail anrhydedd</li><li>Cam-drin domestig</li><li>Lladdiad</li></ul></td></tr>
<tr><td>Rhesymau pam nad yw rhai troseddau'n cael eu reportio<br>Rhesymau personol gan gynnwys:<ul><li>ofn</li><li>cywilydd</li><li>lefel yr effaith</li></ul>Rhesymau cymdeithasol a diwylliannol gan gynnwys:<ul><li>diffyg gwybodaeth</li><li>cymhlethdod</li><li>diffyg diddordeb ar ran y cyfryngau</li><li>diffyg pryder gan y cyhoedd ar hyn o bryd</li><li>natur troseddu diwylliannol-glwm gan gynnwys lladd ar sail anrhydedd a dewiniaeth</li></ul></td></tr>
<tr><td>Canlyniadau peidio â reportio troseddau<ul><li>effaith donnog</li><li>dad-droseddoli a newid cyfreithiol</li><li>blaenoriaethu gan yr heddlu</li><li>newid diwylliannol</li><li>newid gweithdrefnol</li></ul></td></tr>
<tr><td>Dulliau o fesur troseddu<ul><li>Troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu gan gynnwys ystadegau'r Swyddfa Gartref</li><li>Arolygon erledigaeth, gan gynnwys Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr</li><li>Astudiaethau hunanadrodd</li></ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><td rowspan="2">DD2 Sut mae cynrychioliadau'r cyfryngau o droseddu yn effeithio ar ganfyddiadau'r cyhoedd o droseddu</td><td>Cynrychioliadau'r cyfryngau o droseddu<br>Cynrychioliadau'r cyfryngau o droseddu gan gynnwys:<br>• Papur newydd<br>• Ffilm a theledu<br>• Gemau electronig<br>• Cerddoriaeth<br>• Cyfryngau cymdeithasol<br>Cynrychioliad grwpiau cymdeithasol gwahanol yn y cyfryngau o ran troseddu gan gynnwys:<br>• Rhyw/rhywedd<br>• Ethnigrwydd<br>• Oedran</td></tr>
<tr><td>Effaith cynrychioliadau’r cyfryngau ar ganfyddiad y cyhoedd o droseddu<br>• panig moesol<br>• pryderon ac agweddau'r cyhoedd yn newid<br>• canfyddiadau o dueddiadau o ran troseddu<br>• stereoteipio troseddwyr<br>• lefelau o ymateb i droseddu a mathau o gosbau<br>• blaenoriaethau a phwyslais yn newid</td></tr>
<tr><td rowspan="3">DD3 Patrymau Troseddu (Offending) ac Erledigaeth</td><td>Rhyw, rhywedd a throseddu<br>• Ystadegau swyddogol a rhyw/rhywedd<br>• Natur troseddu gan wrywod a benywod<br>• Rhywedd ac erledigaeth</td></tr>
<tr><td>Ethnigrwydd a throseddu<br>• Ystadegau swyddogol ac ethnigrwydd<br>• Atal a chwilio<br>• Ethnigrwydd ac erledigaeth</td></tr>
<tr><td>Oedran a throseddu<br>• Ystadegau swyddogol ac oedran<br>• Troseddwyr ifanc<br>• Oedran ac erledigaeth</td></tr>
<tr><td>Teitl yr Uned</td><td>Uned 2:  Damcaniaethau Troseddegol</td></tr>
<tr><td>DD1 Deall lluniadau cymdeithasol o droseddoldeb</td><td>Ymddygiad troseddol a gwyredd<br><br>Ymddygiad troseddol<br>• diffiniad cymdeithasol<br>• diffiniad cyfreithiol<br>• sancsiynau ffurfiol ar gyfer troseddwyr<br>• amrywiaeth o weithredoedd troseddol<br>Gwyredd<br>• normau, codau moesol a gwerthoedd<br>• sancsiynau anffurfiol a ffurfiol ar gyfer gwyredd<br>• mathau o wyredd</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | **Lluniad cymdeithasol**<br>• sut a pham mae deddfau yn newid o ddiwylliant i ddiwylliant<br>• sut a pham mae deddfau yn newid dros amser<br>• sut y gweithredir deddfau yn wahanol yn ôl yr amgylchiadau mae gweithredoedd yn digwydd ynddyn nhw |
| DD2 Disgrifio, cymhwyso a gwerthuso damcaniaethau o droseddoldeb | **Damcaniaethau Biolegol**<br>• damcaniaethau genetig<br>• damcaniaethau ffisiolegol |
| | **Damcaniaethau Unigolyddol**<br>• damcaniaethau dysgu<br>• damcaniaethau seicodynamig<br>• damcaniaethau personoliaeth |
| | **Damcaniaethau cymdeithasegol**<br>• damcaniaethau strwythur cymdeithasol<br>    o Swyddogaetholdeb<br>    o Marcsaeth<br>• damcaniaethau rhyngweithiadol<br>• damcaniaethau Realaidd |
| | **Sefyllfaoedd Troseddoldeb**<br>• mathau gwahanol o droseddau<br>• ymddygiad troseddol gan unigolyn |
| DD3 Deall achosion newid mewn polisi | **Asesu’r defnydd o ddamcaniaethau troseddegol wrth lywio’r broses o ddatblygu polisi**<br>**Sut mae damcaniaethau troseddegol yn dylanwadu ar bolisi**<br>• polisïau dan ddylanwad biolegol<br>• polisïau dan ddylanwad unigolyddol<br>• polisïau dan ddylanwad cymdeithasegol<br>**Pa mor effeithiol yw polisïau**<br>• llunio polisi anffurfiol<br>• llunio polisi ffurfiol<br>    o polisïau rheoli troseddau<br>    o polisïau gwladol o ran cosbi |

| | |
|---|---|
| | **Newidiadau cymdeithasol a datblygiad polisi**<br>• gwerthoedd, normau a moesau cymdeithasol<br>• canfyddiad y cyhoedd o droseddu<br>• newidiadau demograffig<br>• newidiadau diwylliannol |
| | **Ymgyrchoedd yn ymwneud â throseddu a datblygiad polisi**<br>• ymgyrchoedd papur newydd<br>• ymgyrchoedd unigol<br>• ymgyrchoedd gan garfan bwyso |
| **Teitl yr uned** | **Uned 3: O Leoliad y Drosedd i'r Llys** |
| DD1 Deall proses ymchwiliadau troseddol | **Rolau ac effeithiolrwydd personél mewn ymchwiliadau troseddol**<br>• ymchwilwyr lleoliad y drosedd<br>• gwyddonwyr fforensig<br>• swyddogion yr heddlu / ditectifs<br>• Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)<br>• Patholegwyr |
| | **Defnyddioldeb technegau ymchwiliol mewn ymchwiliadau troseddol**<br>**Technegau**<br>• fforensig<br>• gwyliadwriaeth<br>• proffilio<br>**Ymchwiliadau troseddol**<br>• sefyllfaoedd<br>  ○ lleoliad y drosedd<br>  ○ labordy<br>  ○ gorsaf yr heddlu<br>  ○ ‘stryd’<br>• Mathau o droseddau<br>  ○ troseddau treisgar<br>  ○ e-droseddau<br>  ○ troseddau sy'n ymwneud ag eiddo |
| | **Sut mae tystiolaeth yn cael ei phrosesu**<br>**Mathau o dystiolaeth**<br>• tystiolaeth ffisegol<br>• tystiolaeth gan dyst<br>**Proses**<br>• casglu<br>• trosglwyddo<br>• storio<br>• dadansoddi<br>• personél sy'n rhan o'r broses |

<table>
<tr><td></td><td>Hawliau unigolion mewn ymchwiliadau troseddol<ul><li>y sawl a ddrwgdybir</li><li>dioddefwyr</li><li>tystion</li></ul></td></tr>
<tr><td rowspan="5">DD2 Deall y broses o erlyn y sawl a ddrwgdybir</td><td>Gofynion Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar gyfer erlyn y sawl a ddrwgdybir<ul><li>rôl gyhuddo – Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003</li><li>Deddf Erlyn Troseddau 1985</li><li>Prawf Cod Llawn</li></ul></td></tr>
<tr><td>Prosesau treial<ul><li>cyn y treial</li><li>mechnïaeth</li><li>rolau</li><li>bargeinio ple</li><li>llysoedd</li><li>apeliadau</li></ul></td></tr>
<tr><td>Rheolau tystiolaeth mewn achosion troseddol<ul><li>perthnasedd a derbynioldeb</li><li>datgelu tystiolaeth</li><li>rheol achlust ac eithriadau</li><li>deddfwriaeth a chyfraith achosion</li></ul></td></tr>
<tr><td>Dylanwadau allweddol sy'n effeithio ar ganlyniadau achosion troseddol<ul><li>tystiolaeth</li><li>cyfryngau</li><li>tystion</li><li>arbenigwyr</li><li>gwleidyddiaeth</li><li>y farnwriaeth</li><li>bargyfreithwyr a thimau cyfreithiol</li></ul></td></tr>
<tr><td>Y defnydd a wneir o leygwyr mewn achosion troseddol<ul><li>rheithgorau</li><li>ynadon</li></ul></td></tr>
<tr><td rowspan="2">DD3 Adolygu canlyniadau achosion</td><td>Dilysrwydd ffynonellau gwybodaeth mewn achosion troseddol mewn perthynas â<ul><li>thuedd</li><li>barn</li><li>amgylchiadau</li><li>cyfrededd</li><li>manwl gywirdeb</li></ul>Ffynonellau gwybodaeth<ul><li>tystiolaeth - ffisegol a thystiolaethol</li><li>adroddiadau yn y cyfryngau (troseddu)</li><li>dyfarniadau/rheithfarnau mewn treialon troseddol ac ymchwiliadau cyhoeddus</li></ul></td></tr>
<tr><td>Canlyniadau achosion<ul><li>rheithfarnau cyfiawn/anghyfiawn</li><li>camweinyddiad cyfiawnder</li><li>rheithfarn ddiogel</li><li>dedfrydu cyfiawn/anghyfiawn</li></ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Teitl yr Uned</th><th>Uned 4: Trosedd a Chosb</th></tr>
<tr><td rowspan="3">DD1 Deall y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr</td><td>Prosesau deddfu<ul><li>prosesau seneddol</li><li>prosesau barnwrol</li></ul></td></tr>
<tr><td>Trefniadaeth y system Cyfiawnder Troseddol<ul><li>Asiantaethau'r llywodraeth<ul><li>heddlu</li><li>Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)</li><li>y farnwriaeth</li><li>carcharau</li><li>y gwasanaeth prawf</li></ul></li><li>Asiantaethau eraill<ul><li>elusennau</li><li>carfanau pwyso</li></ul></li><li>Rôl pob asiantaeth gan gynnwys:<ul><li>nodau ac amcanion</li><li>cyllid</li><li>athroniaeth</li><li>arferion gwaith<ul><li>mathau o droseddoldeb</li><li>mathau o droseddwyr</li><li>cwmpas (lleol, cenedlaethol)</li></ul></li></ul></li><li>Perthnasoedd rhwng asiantaethau</li></ul></td></tr>
<tr><td>Modelau cyfiawnder troseddol, gan gynnwys damcaniaethau perthnasol<ul><li>trefn briodol</li><li>rheoli troseddu</li></ul></td></tr>
<tr><td>DD2 Deall rôl cosbi mewn system cyfiawnder troseddol</td><td>Nodau cosbi<ul><li>ad-daledigaeth</li><li>adsefydlu</li><li>ataliaeth<ul><li>atal (unigolion) rhag aildroseddu</li><li>atal eraill rhag cyflawni troseddau tebyg (cyffredinol)</li></ul></li><li>amddiffyn y cyhoedd</li><li>gwneud iawn</li></ul></td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td>
Beth yw'r mathau o gosbau a pha mor effeithiol ydyn nhw o ran bodloni nodau cosbi
<ul>
<li>carcharu</li>
<li>cymunedol</li>
<li>ariannol</li>
<li>rhyddhau</li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td rowspan="3">DD3 Rheolaeth Gymdeithasol</td><td>
Beth yw rheolaeth gymdeithasol
<ul>
<li>mathau mewnol</li>
<li>mathau allanol
<ul>
<li>gorfodaeth</li>
<li>ofn cael eich cosbi</li>
</ul></li>
<li>damcaniaeth rheolaeth
<ul>
<li>rhesymau dros gydymffurfio â'r gyfraith</li>
</ul></li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td>
Sut mae asiantaethau yn sicrhau rheolaeth gymdeithasol
<ul>
<li>Mesurau atal troseddu
<ul>
<li>Amgylcheddol a gwyliadwriaeth
<ul>
<li>dyluniad</li>
<li>lonydd â gatiau</li>
</ul></li>
</ul></li>
<li>mesurau ymddygiadol a disgyblu
<ul>
<li>Gorchmynion Ymddygiad Troseddol</li>
<li>rhaglen atgyfnerthu â thalebau</li>
<li>gweithdrefnau disgyblu sefydliadol
<ul>
<li>gwneud rheolau</li>
<li>cyflwyno fesul cam</li>
</ul></li>
</ul></li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td>
Effeithiolrwydd asiantaethau o ran sicrhau rheolaeth gymdeithasol
<ul>
<li>asiantaethau a noddir gan y llywodraeth
<ul>
<li>heddlu</li>
<li>Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)</li>
<li>y farnwriaeth</li>
<li>carcharau</li>
<li>y gwasanaeth prawf</li>
</ul></li>
</ul>
</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • elusennau<br>• carfanau pwyso |
| | **Rhwystrau rhag sicrhau rheolaeth gymdeithasol**<br>• troseddwyr sy'n troseddu eto/atgwympo<br>• rhyddid sifil a rhwystrau cyfreithiol<br>• cyllid<br>• polisïau lleol a chenedlaethol<br>• amgylchedd<br>• troseddau a gyflawnir gan y rhai sy'n gweithredu am resymau moesol |

### 3.2. Tybiaethau gweithio – Cynnwys y pwnc

Ein tybiaethau gweithio ar gyfer cynnwys y pwnc yw:

| Tybiaeth weithio | Sail Resymegol |
|---|---|
| Gweler uchod am dybiaethau gweithio cynnwys y pwnc ar gyfer pob uned | |
| | |

## 4. Asesu

### 4.1. Amcanion Asesu

Bydd y cymhwyster yn targedu'r amcanion asesu canlynol:

AA1 Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth am y canlynol:

- Damcaniaethau, cysyniadau a thystiolaeth droseddegol
- Cyfiawnder troseddol

AA2 Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau, cysyniadau, tystiolaeth droseddegol a chyfiawnder droseddol at astudiaethau achos a senarios

AA3 Dadansoddi a gwerthuso damcaniaethau, cysyniadau a thystiolaeth droseddegol a chyfiawnder droseddol er mwyn

- cyflwyno dadleuon
- llunio barn
- dod i gasgliadau

### 4.2. Ymdrin â'r asesiad drwy arholiad (yn werth 60% o'r cymhwyster (cymwysterau))

Asesir Uned 2 drwy arholiad 2 awr o hyd sy'n werth 100 marc sef 30% (60% o'r Dystysgrif Gymhwysol) o'r cymhwyster cyfan.

Asesir Uned 4 drwy arholiad 2 awr o hyd sy'n werth 100 marc sef 30% o'r cymhwyster cyfan.

## 4.3. Ymdrin â'r asesiad di-arholiad (yn werth 40% o'r cymhwyster (cymwysterau))

Asesir Uned 1 drwy asesiad mewnol strwythuredig 3 awr o hyd. Bydd amser wedi'i ddyrannu fesul tasg gyda'r tasgau i'w seilio ar friff heb ei weld a fydd yn cael ei ryddhau ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Bydd yr asesiad yn ymdrin ag agweddau ar bob DD ond ni fydd yn ymdrin â'r uned yn ei chyfanrwydd. Bydd yr asesiad hwn yn werth 20% (40% o'r Dystysgrif Gymhwysol) o'r cymhwyster cyfan.

Asesir Uned 3 drwy asesiad mewnol strwythuredig 3 awr o hyd. Bydd amser wedi'i ddyrannu fesul tasg gyda'r tasgau i'w seilio ar friff heb ei weld a dogfennau achos cysylltiedig a fydd yn cael eu rhyddhau ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Bydd yr asesiad yn ymdrin ag agweddau ar bob DD ond ni fydd yn ymdrin â'r uned yn ei chyfanrwydd.
Bydd yr uned hon yn werth 20% o'r cymhwyster cyfan.

## 4.4. Trefn yr asesiadau ac asesiadau synoptig

Bwriedir asesiadau'r unedau i'w sefyll yn y drefn y cyflwynir nhw yn y ddogfen hon hy Uned 1, 2 a 3 ac yna 4.

Asesiadau synoptig fydd asesiadau Uned 2 ac Uned 4; yn Uned 2, bydd gofyn i fyfyrwyr ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o Uned 1; yn Uned 4, bydd gofyn i fyfyrwyr ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cwrs astudio cyfan.

## 4.5. Tybiaethau gweithio – Asesu

Bydd pwysoli'r asesiad arholiad yn newid o 50% i 60%.
Bydd pwysoli'r asesiad di-arholiad yn newid o 50% i 40%.